Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Ystadegau Medr

# Mesurau Monitro Cydraddoldeb Hiliol Addysg Uwch

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/16/2025 |
| **Dyddiad:** | 30 Hydref 2025 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol |
| **E-bost:** | YstadegauAU@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | Mae’r cyhoeddiad wedi’i seilio ar ddata sydd wedi eu cyhoeddi gan UCAS ac Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), gyda ffocws penodol ar gefndiroedd ethnig y rhai sy'n ymgeisio am gwrs gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru, sy'n astudio mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru a staff sy'n gweithio mewn prifysgolion yng Nghymru. |
| **Thema:** | Addysg Uwch |
| **Ffynhonnell:** | Data diwedd cylchred UCAS a chofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg |
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

## Prif bwyntiau

### Ymgeiswyr a Cheisiadau

- O blith ymgeiswyr a cheisiadau UCAS sy'n hanu o'r DU i gyrsiau gradd amser llawn gyda darparwyr Addysg Uwch (AU) Cymru mae'r gyfran sydd o gefndir ethnig lleiafrifol wedi cynyddu o 2016 i 2024. Mae hyn yn wir am yr holl grwpiau cefndir ethnig a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (Asiaidd, Du, Cymysg ac Arall).

- Mae canran yr ymgeiswyr sy'n cael cynnig yn gyson uwch i'r rhai o gefndir ethnig Gwyn neu Gymysg na'r rhai o gefndir ethnig Asiaidd, Du neu Arall. Mae hyn yn wir am ymgeiswyr 18 oed ac ymgeiswyr o bob oed.

- Mae cyfran yr ymgeiswyr sy'n bodloni amodau eu cynnig ac sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol wedi cynyddu o 2016 i 2024.

### Myfyrwyr

- Mae cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o'r DU o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a ddechreuodd gyrsiau gyda darparwyr AU yng Nghymru wedi cynyddu o 10.3% yn 2016/17 i 17.9% yn 2023/24. Ceir tuedd gyffredinol i gyfran y dechreuwyr o bob un o'r grwpiau cefndir ethnig Asiaidd, Du, Cymysg ac Arall gynyddu, gyda'r cynnydd mwyaf ymhlith y rhai o gefndir ethnig Asiaidd.

- Rhwng 2016/17 a 2023/24, mae myfyrwyr o gefndir ethnig Gwyn wedi bod yn gyson yn fwy tebygol o gael gradd anrhydedd dosbarth cyntaf na myfyrwyr o unrhyw gefndir ethnig arall.

- Mae myfyrwyr o gefndir ethnig Du wedi bod yn fwy tebygol yn gyson o gael gradd ail ddosbarth isaf neu drydydd dosbarth na myfyrwyr o gefndiroedd ethnig eraill.

### Staff

- Mae cyfran y staff, academaidd ac anacademaidd, o gefndiroedd ethnig lleiafrifol wedi cynyddu o 2016/17 i 2023/24. Gwelwyd y cynnydd mwyaf ymhlith staff o gefndiroedd ethnig Asiaidd.

- Mae staff o gefndir ethnig Gwyn yn fwy tebygol o fod ar delerau cyflogaeth parhaol na staff o unrhyw gefndiroedd ethnig eraill.

- Mae staff academaidd o gefndiroedd ethnig Du yn fwy tebygol o gael eu cyflogi ar raddfa ganol neu is o gymharu â staff o gefndiroedd ethnig eraill. Mae cyfran uwch o staff academaidd o'r grwpiau Gwyn a chefndir ethnig Arall yn cael eu cyflogi ar y graddfeydd uwch o'i gymharu â'r grwpiau cefndir ethnig eraill.

- Mae'r gwahaniaethau rhwng cefndiroedd ethnig o ran cyfran y staff anacademaidd a gyflogir ar bob graddfa wedi culhau rhwng 2016/17 a 2023/24.

- Er bod nifer y llywodraethwyr yn y sector addysg uwch yn isel, mae'r gyfran sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol wedi cynyddu o 3.1% yn 2016/17 i 13.6% yn 2023/24.

# Cyflwyniad

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn diweddaru'r Mesurau Monitro Cydraddoldeb Hiliol a gyhoeddwyd gan un o'r sefydliadau a ragflaenodd Medr, sef Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), yn 2024.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am gefndiroedd ethnig:

- y rhai sy'n ymgeisio am addysg uwch drwy UCAS.
- nifer y myfyrwyr gyda ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru a'u canlyniadau gradd.
- nifer y staff mewn prifysgolion yng Nghymru a'u telerau cyflogaeth.

I gyd-fynd â'r adroddiad hwn ceir taenlen ac arni'r data llawn a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, ac a geir ar wefan Medr.

Cyhoeddwyd y mesurau'n wreiddiol gan CCAUC i fodloni un o'r camau yn nogfen Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2022. Drwy gyhoeddi'r fersiwn ddiweddaraf hon o'r mesurau rydym yn darparu gwybodaeth gyfredol a all gyfrannu at fonitro cynnydd y cynllun hwn.

Mae Medr yn defnyddio'r data i lywio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn rhan o'n gwaith monitro i ddibenion rheoleiddio a chyllido. Mae data a thystiolaeth yn llywio ein datblygiadau o ran polisi ac yn cyfrannu at ein hasesiad o'n cyfraniad at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Wrth i Medr ddatblygu ei brosesau rheoleiddio a chyllido, efallai y byddwn yn defnyddio'r data i lywio ein dealltwriaeth o gyfle cyfartal, lles staff a myfyrwyr, profiad dysgwyr, a pherfformiad a risg.


Mae'r mesurau hefyd yn cyfrannu at fonitro nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a hefyd at ddyletswyddau Medr yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (2022) a'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

## Myfyrwyr – Data UCAS

Mae'r adran hon yn cynnwys data a gyhoeddwyd gan UCAS am ymgeiswyr a cheisiadau am gyrsiau gradd addysg uwch amser llawn gyda darparwyr Cymru yn ei ddata diwedd cylchred 2024. Nid yw UCAS yn gynhyrchydd Ystadegau Swyddogol felly nid Ystadegau Swyddogol yw'r data hyn. Fodd bynnag, mae UCAS wedi mabwysiadu'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau yn wirfoddol sy'n rhoi sicrwydd bod y data o ansawdd uchel ac yn ddibynadwy.

### Data ceisiadau ac ymgeiswyr

**Siart 1: Canran o geisiadau UCAS i gyrsiau gradd amser llawn gyda darparwyr AU yng Nghymru gan ymgeiswyr sy'n hanu o'r DU sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, 2016 i 2024**




Disgrifiad: Mae canran y ceisiadau UCAS a wneir gan ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol wedi cynyddu o 2016 i 2024.

Data yn Nhabl 1.1 y llyfr gwaith atodol


Mae'r adran hon yn edrych ar geisiadau ac ymgeiswyr. Gall nifer y ceisiadau y bydd ymgeisydd yn eu gwneud amrywio, ac ni fydd pob cais gan ymgeisydd o reidrwydd yn gais i ddarparydd AU yng Nghymru.

Ar gyfer ceisiadau i addysg uwch yng Nghymru, mae nifer a chyfran y ceisiadau gan ymgeiswyr o bob grŵp cefndir ethnig lleiafrifol wedi cynyddu yn y rhan fwyaf o flynyddoedd o 2016 i 2024. Mewn cyferbyniad â hyn, mae nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir ethnig Gwyn wedi amrywio ac yn 2024 roedd y nifer ychydig yn is nag yn 2016.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf o ran nifer a chyfran yr holl geisiadau ymhlith rhai o gefndir ethnig Asiaidd, ac yna rhai o gefndir ethnig Cymysg. Cododd nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd o 5,725 yn 2016 i 9,615 yn 2024, ac o gyfrif am 6.2% o geisiadau lle'r oedd cefndir ethnig yr ymgeiswyr yn hysbys, i 9.7%.

Cododd nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir ethnig Cymysg o 2,780 yn 2016 i 4,960 yn 2024, ac o gyfrif am 3.0% o'r holl geisiadau i 5.0%.

**Siart 2: Canran o ymgeiswyr UCAS sy'n hanu o'r DU ac o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, am gyrsiau gradd amser llawn gyda darparwyr AU yng Nghymru, 2016 i 2024**




Disgrifiad: Mae canran yr ymgeiswyr sydd o gefndir ethnig lleiafrifol wedi cynyddu o 2016 i 2024.

Data yn Nhabl 1.2 y llyfr gwaith atodol

Roedd y duedd ymhlith ymgeiswyr yr un peth ag ar gyfer ceisiadau, gyda nifer a chyfran yr ymgeiswyr o bob cefndir ethnig yn cynyddu o 2016 i 2024.

Unwaith eto, gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn niferoedd a chyfran ymhlith y rhai o gefndir ethnig Asiaidd (cynnydd o 4,575 i 7,580, a 7.2% i 11.1%) ac yna'r rhai o gefndir ethnig Cymysg (cynnydd o 2,185 i 3,790, a 3.4% i 5.5%).

Un ffactor sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn ymgeiswyr a cheisiadau gan y rhai o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yw'r gyfran gynyddol o ymgeiswyr i ddarparwyr AU yng Nghymru Cymru sy'n hanu o Loegr. Gan fod gan boblogaeth Lloegr gyfran fwy o bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol na Chymru, mae'n debygol y bydd y newid hwn i'r fan y mae ymgeiswyr yn hanu ohoni hefyd i'w weld yn eu cefndiroedd ethnig. Yn 2016, roedd 68% o ymgeiswyr i ddarparwyr AU yng Nghymru oedd yn hanu o'r DU yn dod o Loegr (55% o geisiadau). Erbyn 2024 roedd hyn wedi cynyddu i 73% o'r holl ymgeiswyr sy'n hanu o'r DU (61% o geisiadau).


## Cyfraddau cynnig

Mae canran y ceisiadau sy'n derbyn cynnig, a elwir yn gyfradd cynnig, wedi bod yn sylweddol is ymhlith ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd, Du, neu Arall na'r gyfradd cynnig gyffredinol ar gyfer yr holl ymgeiswyr bob blwyddyn o 2016 i 2024. Roedd hyn yn wir wrth edrych ar y gyfradd cynnig ar gyfer ymgeiswyr 18 oed, a hefyd ar gyfer ymgeiswyr o bob oed. Fodd bynnag, nid yw'r gyfradd cynnig hon yn ystyried a yw ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig gwahanol yn ymgeisio am wahanol fathau o gyrsiau neu a yw'r graddau a

ragfynegir ymhlith ymgeiswyr yn amrywio yn ôl cefndir ethnig, a fyddai'n effeithio ar y gyfradd cynnig.

Mae'r cyfraddau cynnig wedi amrywio ar hyd y blynyddoedd o 2016 i 2024, ond ceir rhai tueddiadau parhaus:

**Siart 3: Cyfradd cynnig i ymgeiswyr UCAS 18 oed sy'n hanu o'r DU ar gyfer cyrsiau gradd amser llawn gyda darparwyr AU yng Nghymru yn ôl cefndir ethnig, 2016 i 2024**





Disgrifiad: Mae'r gyfradd cynnig ar gyfer ymgeiswyr 18 oed o gefndir ethnig Gwyn neu Gymysg wedi bod yn uwch nag ar gyfer ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig Asiaidd, Du neu Arall ym mhob blwyddyn.

Data yn Nhabl 1.3 y llyfr gwaith atodol

Ymhlith ymgeiswyr 18 oed, y rhai o gefndir ethnig Asiaidd sydd wedi cael y gyfradd cynnig isaf yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Yn 2024 roedd y gyfradd honno 16.4 pwynt canran yn is na'r gyfradd cynnig ar gyfer pob cais. Roedd y gyfradd cynnig i'r rhai o gefndir ethnig Du 15.0 pwynt canran yn is, a'r rhai o gefndir ethnig Arall 14.2 pwynt canran yn is, na'r gyfradd cynnig ar gyfer pob cais.

**Siart 4: Cyfradd cynnig i ymgeiswyr UCAS o bob oed sy'n hanu o'r DU ar gyfer cyrsiau gradd amser llawn gyda darparwyr AU yng Nghymru yn ôl cefndir ethnig, 2016 i 2024**




Disgrifiad: Mae'r gyfradd cynnig i ymgeiswyr o bob oed o gefndir ethnig Gwyn neu Gymysg wedi bod yn uwch nag i ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig Asiaidd, Du neu Arall ym mhob blwyddyn. Gwelwyd y gyfradd cynnig isaf yn gyson ymhlith ymgeiswyr o gefnir ethnig Du.


Data yn Nhabl 1.3 y llyfr gwaith atodol

Mae'r cyfraddau cynnig ar gyfer pob oedran yn is na'r cyfraddau cynnig ar gyfer pobl 18 oed ar draws pob cefndir ethnig, ond gwelir y gwahaniaeth mwyaf ymhlith y rhai o gefndir ethnig Du.

Mae'r gyfradd cynnig i ymgeiswyr o gefndir ethnig Du yn is nag ar gyfer unrhyw gefndir ethnig arall ym mhob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r gyfradd cynnig ar gyfer ymgeiswyr o gefndir ethnig Du wedi cynyddu mwy nag unrhyw grŵp arall rhwng 2016 a 2024, gan gynyddu 9 pwynt canran o 49.5% i 58.5%. Yn 2024 roedd y gyfradd cynnig ar gyfer ceisiadau gan y rhai o gefndir ethnig Du 21.3 pwynt canran yn is na'r gyfradd cynnig ar gyfer pob cais.

## Ymgeiswyr sy'n cael eu lleoli

**Siart 5: Cefndiroedd ethnig ymgeiswyr UCAS sy'n hanu o'r DU ac sydd wedi'u lleoli ar gyrsiau gradd amser llawn gyda darparwyr AU yng Nghymru, 2016 i 2024**




Disgrifiad: Mae cyfran yr ymgeiswyr a leolir o gefndiroedd ethnig lleiafrifol wedi cynyddu o 2016 i 2024.

Data yn Nhabl 1.4 y llyfr gwaith atodol

Ymgeisydd wedi'i leoli yw ymgeisydd sydd wedi bodloni amodau ei gynnig am le gyda darparydd addysg uwch.

Cynyddodd nifer a chyfran yr ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a leolwyd yn gyson rhwng 2016 a 2024.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf o ran nifer a chyfran dros y cyfnod hwn ymhlith ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd, ac yna'r rhai o gefndir ethnig Cymysg.

Cynyddodd nifer yr ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd a gafodd eu lleoli o 1,065 yn 2016 i 1,730 yn 2024. Fel cyfran o'r holl ymgeiswyr a leolwyd lle'r oedd eu cefndir ethnig yn hysbys, cynyddodd y rhai o gefndir ethnig Asiaidd o 4.6% yn 2016 i 7.7% yn 2024.


Cynyddodd nifer yr ymgeiswyr o gefndir ethnig cymysg a gafodd eu lleoli o 675 yn 2016 i 1,115 yn 2024. Fel cyfran o'r holl ymgeiswyr a leolwyd lle'r oedd eu cefndir ethnig yn hysbys, cynyddodd y rhai o gefndir ethnig Cymysg o 2.9% yn 2016 i 4.9% yn 2024.

## Myfyrwyr -Data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Daw'r data am fyfyrwyr sy'n astudio gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru o gofnod myfyrwyr HESA ac fe'u cyhoeddir gan HESA fel ystadegau swyddogol.

### Dechreuwyr

**Siart 6: Canran y myfyrwyr sy'n hanu o'r DU a ddechreuodd gyrsiau gradd gyda darparwyr yng Nghymru yn ôl cefndir ethnig, 2016 i 2024**




Disgrifiad: Mae canran y myfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau gradd gyda darparwyr AU yng Nghymru wedi cynyddu o 2016/17 i 2023/24.

Data yn Nhabl 1.5 y llyfr gwaith atodol

Mae nifer a chyfran y myfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sy'n dechrau cwrs addysg uwch gyda darparwyr yng Nghymru wedi cynyddu o 2016/17 i 2023/24, gyda chynnydd yn y rhan fwyaf o flynyddoedd dros y cyfnod hwn. Mae cyfran y dechreuwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol wedi cynyddu o 10.3% yn 2016/17 i 17.9% yn 2023/24.

Gwelir y cynnydd mwyaf yn nifer y dechreuwyr, ac yng nghyfran yr holl ddechreuwyr, ymhlith dechreuwyr o gefndir ethnig Asiaidd. Cododd nifer y dechreuwyr o gefndir ethnig Asiaidd o 1,665 yn 2016/17 i 3,060 yn 2024/25. Fel cyfran o'r holl ddechreuwyr lle mae'r cefndir ethnig yn hysbys, roedd dechreuwyr o gefndir ethnig Asiaidd i gyfrif am 4.4% o ddechreuwyr yn 2016/17 a 7.5% o ddechreuwyr yn 2023/24.

Y cynnydd mwyaf nesaf oedd ymhlith dechreuwyr o gefndir ethnig Du. Cafwyd 955 o ddechreuwyr o gefndir ethnig Du yn 2016/17 o gymharu â 1,900 yn 2023/24. Fel cyfran o'r holl ddechreuwyr â chefndir ethnig hysbys, roedd hyn yn golygu bod dechreuwyr o gefndir ethnig Du wedi codi o gyfrif am 2.5% o'r holl ddechreuwyr yn 2016/17 i 4.6% yn 2023/24.

## Cadw

Roedd datganiad cyntaf y Mesurau Monitro Cydraddoldeb Hiliol yn cynnwys mesuriad o gyfraddau cadw myfyrwyr gradd.


Defnyddiai'r mesur hwn Ddangosyddion Perfformiad Addysg Uwch y DU a gynhyrchwyd gan HESA nes rhoi'r gorau i'w defnyddio yn dilyn cyhoeddi'r dangosyddion ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.

Mae Medr yn bwriadu datblygu methodoleg newydd i gyfrifo data cadw, ond nid oedd modd gwneud hynny ar gyfer y datganiad hwn.

## Dosbarthiadau gradd

Mae'r adran hon yn edrych ar y dosbarthiadau gradd a ddyfarnwyd i fyfyrwyr hanu o'r DU a enillodd radd gyntaf gan ddarparydd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys graddau di-ddosbarth gan nad oes gan rai cymwysterau ddosbarth ar lefel gradd gyntaf. Mae hyn yn cynnwys graddau meddygol, graddau cyffredinol a chymwysterau aegrotat.

**Siart 6: Dosbarthiadau gradd myfyrwyr sy'n hanu o'r DU a enillodd radd gyntaf gyda darparydd AU yng Nghymru yn ôl cefndir ethnig. 2023/24**




Disgrifiad: O blith y myfyrwyr y dyfarnwyd gradd gyntaf iddynt, dyfarnwyd gradd dosbarth cyntaf i gyfran fwy o'r rhai o gefndir ethnig Gwyn (29%) yn 2023/24 nag o unrhyw gefndir ethnig arall. Dyfarnwyd cyfran fwy o raddau trydydd dosbarth (6.2%) i'r rhai o gefndir ethnig Du na'r rhai o gefndiroedd ethnig eraill.

Data yn Nhabl 1.7 y llyfr gwaith atodol

## Graddau Dosbarth Cyntaf

Dyfarnwyd gradd dosbarth cyntaf i gyfran fwy o raddedigion o gefndir ethnig Gwyn na graddedigion o unrhyw gefndir ethnig arall ym mhob blwyddyn o 2016/17 i 2023/24. Dyfarnwyd y gyfran leiaf o raddau dosbarth cyntaf i raddedigion o gefndir ethnig Du ym mhob blwyddyn o 2016/17 i 2023/24.

Yn 2023/24, derbyniodd 29.0% o raddedigion o gefndir ethnig Gwyn radd dosbarth cyntaf. Er cymhariaeth, derbyniodd 14.8% o raddedigion o gefndir ethnig Du radd dosbarth cyntaf.

### Graddau Ail Ddosbarth Uchaf

Ceir llai o wahaniaeth cyson rhwng y rhan fwyaf o grwpiau cefndir ethnig o ran cyfran y graddedigion sy'n cael gradd ail ddosbarth uchaf. Fodd bynnag, un duedd gyson oedd bod graddedigion o gefndir ethnig Du wedi cael y gyfran isaf o raddau ail ddosbarth uchaf ym mhob blwyddyn ac eithrio 2020/21.

### Graddau Ail Ddosbarth Isaf

Ceir gwahaniaethau mawr yng nghyfran y graddedigion sy'n cael gradd ail ddosbarth isaf. Dyfarnwyd gradd ail ddosbarth isaf i gyfran fwy o raddedigion o gefndir ethnig Asiaidd, Du neu Arall na graddedigion o gefndir ethnig Cymysg neu Wyn drwy gydol y cyfnod o 2016/17 i 2023/24

Yn debyg i raddau dosbarth cyntaf, gwelir y gwahaniaeth mwyaf ymhlith graddedigion o gefndir ethnig Du, sef y grŵp sydd â'r gyfran fwyaf o raddedigion yn ennill gradd ail ddosbarth isaf bob blwyddyn ers 2016/7.

Yn 2023/24, derbyniodd 32.1% o raddedigion o gefndir ethnig Du radd ail ddosbarth isaf o gymharu ag 19.5% o raddedigion o gefndir ethnig Gwyn.

### Graddau Trydydd Dosbarth

Dyfernir gradd trydydd dosbarth i gyfran fwy o raddedigion o gefndir ethnig Du nag i raddedigion o unrhyw gefndir ethnig arall. Yn 2023/24, dyfarnwyd gradd trydydd dosbarth i 6.2% o raddedigion o gefndir ethnig Du, tra bo'r holl grwpiau cefndir ethnig eraill rhwng 1.7% a 3.2%.

### Graddau Di-ddosbarth

Graddedigion o gefndir ethnig Asiaidd sy'n derbyn y gyfran fwyaf o raddau di-ddosbarth, gyda'r gwahaniaeth yn fwy amlwg yn 2022/23 a 2023/24 nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Yn 2023/24, derbyniodd 8.1% o raddedigion o gefndir ethnig Asiaidd radd ddi-ddosbarth. Yr ail grŵp cefndir ethnig uchaf oedd y grŵp cefndir ethnig Arall, lle dyfarnwyd gradd ddi-ddosbarth i 5.1% o raddedigion.

## Staff

Daw'r data am staff o gofnod Staff HESA ac fe'u cyhoeddir fel Ystadegau Swyddogol. Dim ond prifysgolion Cymru sydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon gan nad yw cofnod Staff HESA yn casglu gwybodaeth gan ddarparwyr addysg bellach. Nid yw staff y Brifysgol Agored wedi'u cynnwys ychwaith gan fod data'r Brifysgol Agored yn y cofnod Staff yn cynnwys staff ar draws y DU, ac ni ellir rhannu'r data i wledydd y DU.

Mae staff wedi'u rhannu i grwpiau staff academaidd ac anacademaidd, heb gynnwys y rhai sydd ar gontract annodweddiadol. Staff annodweddiadol yw'r aelodau hynny o staff y mae eu contractau'n cynnwys trefniadau gwaith nad ydynt yn barhaol, sy'n cynnwys perthnasoedd cyflogaeth cymhleth ac/neu sy'n cynnwys gwaith y tu hwnt i oruchwyliaeth y darparydd gwaith arferol. Ni chynhwysir data ar gyfer staff academaidd ar gontractau annodweddiadol yn y dadansoddiad hwn gan fod cefndir ethnig cyfran fawr o'r staff yn anhysbys yng nghofnod Staff HESA. Byddwn yn parhau i fonitro'r grŵp hwnnw o staff a byddwn yn ystyried a ellir eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn yn y dyfodol.


Mae'r cefndir ethnig wedi'i gynnwys ar gyfer pob cenedligrwydd ar gofnod Staff HESA. Mae hyn yn wahanol i Gofnod Myfyrwyr HESA lle nad yw'r cefndir ethnig ond wedi'i gynnwys ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o'r DU. Mae staff anacademaidd yn fwy tebygol o fod yn ddinasyddion y DU na staff academaidd, a bydd hynny'n effeithio ar amrywiaeth y cefndiroedd ethnig rhwng gwahanol fathau o staff.

Ymhlith staff academaidd, mae cyfran y staff o gefndir ethnig anhysbys yng nghofnod Staff HESA wedi cynyddu o 5% yn 2016/17 i 13% yn 2023/24. Gallai'r cefndir ethnig fod yn anhysbys os nad yw'r aelod staff yn gwybod ei darddiad ethnig, os yw'n gwrthod darparu'r wybodaeth honno, neu os nad oes gan y brifysgol yr wybodaeth. Ar gyfer staff anacademaidd, bu lefel y cefndiroedd ethnig anhysbys yn fwy sefydlog ac yn 2023/24 cofnodwyd bod gan 4% o staff anacademaidd gefndir ethnig anhysbys yng nghofnod Staff HESA. Mae'r cyfrannau yn yr adran hon ar gyfer nifer y staff o bob cefndir ethnig wedi'u cyfrifo heb gynnwys y rhai o gefndir ethnig anhysbys.

## Niferoedd y staff

### Staff academaidd

**Siart 7: Canran y staff academaidd (ac eithrio staff annodweddiadol) ym mhrifysgolion Cymru yn ôl cefndir ethnig, 2016/17 i 2023/24**




Disgrifiad: Mae canran y staff academaidd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol wedi cynyddu o 2016/17 i 2023/24. Bu cynnydd amlwg iawn ar gyfer staff o gefndiroedd ethnig Asiaidd a Du.

Data yn Nhabl 1.8 y llyfr gwaith atodol


Rhwng 2016/17 a 2023/24 mae nifer a chyfran y staff academaidd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol wedi cynyddu. Mae'r ddau ffigur wedi bod yn cynyddu'n flynyddol ymhlith staff o gefndiroedd ethnig Asiaidd, Du a Chymysg, ond ni welwyd rhyw lawer o newid yn y grŵp cefndir ethnig Arall. Mae cyfran y staff academaidd o unrhyw gefndir ethnig lleiafrifol wedi cynyddu o 10.7% yn 2016/17 i 18.2% yn 2023/24.

Y cynnydd mwyaf yn y ddau ffigur oedd ar gyfer staff o gefndir ethnig Asiaidd, a gynyddodd o 560 yn 2016/17 i 1,045 yn 2023/24, ac o 5.8% o'r staff academaidd o gefndir ethnig hysbys i 10.5%

Mewn cyferbyniad â hyn, gostyngodd nifer y staff academaidd o gefndir ethnig Gwyn bob blwyddyn o 2016/17 i 2021/22. O 2021/22 ymlaen, er bod cyfran y staff academaidd o gefndir ethnig Gwyn wedi parhau i ostwng, bu cynnydd yn y niferoedd.

## Staff Anacademaidd

**Siart 8: Canran y staff anacademaidd ym mhrifysgolion Cymru yn ôl cefndir ethnig, 2016/17 i 2023/24**




Disgrifiad: Mae canran y staff anacademaidd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol wedi cynyddu o 2016/17 i 2023/24. Bu cynnydd amlwg iawn ymhlith staff o gefndir ethnig Asiaidd ers 2019/20.

Data yn Nhabl 1.8 y llyfr gwaith atodol


Fel staff academaidd, mae nifer a chyfran y staff anacademaidd sydd o gefndir ethnig lleiafrifol wedi cynyddu'n flynyddol o 2016/17 i 2023/24. Fodd bynnag, er bod cyfanswm y staff anacademaidd yn debyg i nifer y staff academaidd, mae'r gyfran sydd o gefndir ethnig lleiafrifol yn sylweddol is. Yn 2016/7 roedd 4.4% o staff anacademaidd o gefndir ethnig lleiafrifol gan godi i 6.9% yn 2023/24.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf o ran nifer a chyfran yn y grwpiau cefndir ethnig Asiaidd, Du a Chymysg, tra bo'r grŵp cefndir ethnig Arall wedi bod yn gymharol sefydlog. Y cynnydd mwyaf o ran nifer a chyfran oedd ymhlith staff o gefndir ethnig Asiaidd, gan gynyddu o 220 o staff yn 2016/17 i 355 yn 2023/24, neu o 2.1% o staff anacademaidd i 3.3%.

## Telerau cyflogaeth

### Staff academaidd

**Siart 9: Canran y staff academaidd (ac eithrio staff annodweddiadol) ym mhrifysgolion Cymru ar delerau cyflogaeth parhaol yn ôl cefndir ethnig, 2016/17 i 2023/24**




Disgrifiad: Staff academaidd o gefndir ethnig Gwyn yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o fod ar delerau cyflogaeth parhaol. Yn 2023/24 gwelwyd gwahaniaeth o fwy na 10 pwynt canran rhwng staff o gefndir ethnig Gwyn a'r rhai o gefndir ethnig arall.

Data yn Nhabl 1.9 y llyfr gwaith atodol


Gwelwyd gwahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau cefndir ethnig o ran cyfran y staff academaidd ar delerau cyflogaeth parhaol. Roedd staff academaidd o gefndir ethnig Gwyn yn llawer mwy tebygol o fod ar delerau cyflogaeth parhaol na'r rhai o gefndiroedd ethnig eraill. Yn 2023/24, roedd 78.9% o staff academaidd o gefndir ethnig Gwyn ar delerau cyflogaeth parhaol. Y gyfran nesaf fwyaf oedd staff yn y grŵp cefndir ethnig Arall, gyda 67.5% ar delerau cyflogaeth parhaol. Roedd y gyfran leiaf ymhlith rhai o gefndir ethnig DU, lle'r oedd 57.7% ar delerau cyflogaeth parhaol.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y gyfran ar gyfer staff o gefndir ethnig Gwyn a'r rhai o gefndir ethnig Asiaidd neu Arall wedi bod yn gymharol sefydlog dros y cyfnod o 2016/17 i 2023/24.

Gwelwyd cynnydd amlwg yn y gwahaniaeth rhwng y gyfran ar gyfer staff o gefndir ethnig Gwyn a'r rhai o gefndir ethnig Du neu Gymysg rhwng 2016/17 a 2021/22. Roedd y gwahaniaeth hwn yn llai yn 2022/23 ac yn 2023/24 o'i gymharu â 2021/22, ar ôl i gyfrannau'r rhai o gefndiroedd ethnig Du a Chymysg sydd ar delerau parhaol gynyddu yn 2022/23.

## Staff Anacademaidd

**Siart 10: Canran y staff anacademaidd ym mhrifysgolion Cymru sydd ar delerau cyflogaeth parhaol yn ôl cefndir ethnig, 2016/17 i 2023/24**




Disgrifiad: Mae staff anacademaidd o gefndir ethnig Gwyn yn fwy tebygol o fod ar delerau cyflogaeth parhaol.

Data yn Nhabl 1.9 y llyfr gwaith atodol

Staff anacademaidd o gefndir ethnig Gwyn yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o fod ar delerau cyflogaeth parhaol, gydag 87.3% o'r grŵp hwn ar delerau parhaol yn 2023/24.

Mae cyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig Du sydd ar delerau cyflogaeth parhaol wedi cynyddu'n sylweddol o 67.6% yn 2016/17 i 79.0% yn 2023/24. Mae hyn wedi lleihau'r gwahaniaeth mewn pwyntiau canran o gymharu â'r rhai o gefndir ethnig Gwyn.

Mae'r gwahaniaeth pwynt canran rhwng y rhai o gefndiroedd ethnig Asiaidd, Cymysg neu Arall a'r rhai o gefndir ethnig Gwyn wedi amrywio drwy gydol y cyfnod o 2016/17 i 2023/24.

## Graddfa

Yn y dadansoddiad hwn defnyddir y grwpiau graddfa canlynol:

- Grŵp 1: Uwch reolwyr
- Grŵp 2: Athrawon
- Grŵp 3: Cyfrifoldeb rheoli/cyllideb, arbenigwyr
- Grŵp 4: Cyfrifoldeb staff, cyfrifoldeb rheoli cyfyngedig/dim cyfrifoldeb rheoli, cyllideb tîm/dim cyfrifoldeb cyllideb
- Grŵp 5: Dim cyfrifoldeb staff na chyllideb, ychydig o brofiad os o gwbl


Mae'r grwpiau hyn wedyn wedi cael eu cyfuno'n wahanol ar gyfer staff academaidd ac anacademaidd, ar sail dosbarthiad staff ar draws graddfeydd ar gyfer y ddau fath o staff. Nid yw Grŵp 2 yn berthnasol i staff anacademaidd gan nad yw ond yn berthnasol i staff academaidd. Dyma'r cyfuniadau a ddefnyddir:

**Tabl 1: Grwpiau graddfa staff ar gyfer pob math o staff**

| Math o staff | Graddfeydd uwch | Graddfeydd canol | Graddfeydd is |
|---|---|---|---|
| Academaidd | Grwpiau 1 a 2 | Grŵp 3 | Grwpiau 4 a 5 |
| Anacademaidd | Grwpiau 1 a 3 a 4 | | Grŵp 5 |

## Staff academaidd

**Siart 11: Canran y staff academaidd (ac eithrio staff annodweddiadol) ym mhrifysgolion Cymru o bob cefndir ethnig yn y grŵp graddfeydd uwch, 2016/17 i 2023/24**




Disgrifiad: Mae staff academaidd o gefndiroedd ethnig Arall a Gwyn yn fwy tebygol o fod yn y grŵp graddfeydd uwch na'r gyfradd gyffredinol ymhlith yr holl staff academaidd. Mae cyfran y staff academaidd o gefndiroedd ethnig Du a Chymysg wedi lleihau yn sylweddol, ond gall canrannau newid yn gyflym gan fod niferoedd y staff yn fach yn y grwpiau hyn.


Data yn Nhabl 1.10 ar y llyfr gwaith atodol

Ym mhob blwyddyn o 2016/17 i 2023/24, roedd aelodau staff academaidd o'r grŵp cefndir ethnig Arall yn fwy tebygol o fod yn y grŵp graddfeydd uwch na'r rhai o gefndir ethnig arall. Roedd cyfran y staff academaidd o gefndir ethnig Gwyn a oedd yn y grŵp graddfeydd uwch yn uwch na'r gyfran ar gyfer yr holl staff ym mhob un o'r blynyddoedd hyn.

Roedd cyfran y staff academaidd o gefndir ethnig Asiaidd sy'n cael eu cyflogi yn y grŵp graddfeydd uwch tua 3 i 4 pwynt canran yn i'r na'r gyfran ar gyfer yr holl staff academaidd drwy gydol y cyfnod o 2016/17 i 2023/24.

Gostyngodd cyfran y staff academaidd o gefndiroedd Du a Chymysg yn y grŵp graddfeydd uwch rhwng 2016/17 a 2023/24. Y rheswm am hyn yw, er bod nifer y staff o'r cefndiroedd ethnig hyn wedi aros ar yr un lefel ar hyd y blynyddoedd hyn, mae nifer y staff a gyflogir yn y grŵp graddfeydd canol ac is wedi cynyddu. Gan fod niferoedd y staff academaidd yn y grwpiau hyn yn gymharol fach, mae'n golygu y gall newidiadau bach mewn niferoedd arwain at newidiadau mawr mewn canrannau.

**Siart 12: Canran y staff academaidd (ac eithrio rhai annodweddiadol) yn narparwyr AU Cymru o bob cefndir ethnig yn y grŵp graddfeydd canol, 2016/17 i 2023/24**




Disgrifiad: Yn 2023/24 roedd cyfran y rhai o gefndir ethnig Du a oedd yn gweithio yn y grŵp graddfa ganol 7.8 pwynt canran neu fwy yn is na'r ganran ar gyfer unrhyw gefndir ethnig arall, ac 8.7 pwynt canran yn is na'r ganran gyffredinol.


Data yn Nhabl 1.10 ar y llyfr gwaith atodol

Yn 2023/24, mae'r gwahaniaeth yng nghyfran y staff academaidd o bob cefndir ethnig a gyflogir yn y grŵp graddfeydd canol yn gymharol gul ar gyfer y rhan fwyaf o gefndiroedd ethnig, ac eithrio'r rhai o gefndir ethnig Du.

Yn 2023/24, roedd rhwng 13.1% ac 15.9%  o staff academaidd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddfeydd canol ar gyfer pob un o'r grwpiau cefndir ethnig Asiaidd, Cymysg, Arall a Gwyn.

Fodd bynnag, dim ond 5.3% o staff academaidd o gefndir ethnig Du oedd yn gweithio yn y grŵp graddfa ganol yn 2023/24. Roedd hyn 8.7 pwynt canran yn is na'r gyfran ar gyfer yr holl staff academaidd - bwlch ehangach nag yn 2016/17 pan gafwyd gwahaniaeth o 4.8 pwynt canran.

**Siart 13: Canran y staff academaidd (ac eithrio rhai annodweddiadol) yn narparwyr AU Cymru o bob cefndir ethnig yn y grŵp graddfeydd is, 2016/17 i 2023/24**




Disgrifiad: Mae staff academaidd o gefndir ethnig Du yn gyson yn fwy tebygol o gael eu cyflogi yn y grŵp graddfeydd is na staff o gefndiroedd ethnig eraill. Mae'r gwahaniaeth hwn wedi cynyddu rhwng 2016/17 a 2023/24.


Data yn Nhabl 1.10 ar y llyfr gwaith atodol

Roedd staff academaidd o gefndir ethnig Du yn fwy tebygol o gael eu cyflogi yn y grŵp graddfeydd is (91.8% yn 2023/24) o'u cymharu â staff o gefndiroedd ethnig eraill. Mae'r gwahaniaeth yn y gyfran hon ar gyfer staff o gefndiroedd ethnig Du a chyfran yr holl staff academaidd wedi cynyddu o 10.7 pwynt canran yn 2016/17 i 17.9 pwynt canran yn 2023/24.

Mae cyfran y staff a gyflogir yn y grŵp graddfeydd is hefyd yn uwch na'r gyfran gyffredinol ar gyfer rhai o gefndir ethnig Asiaidd neu Gymysg. I'r rhai o gefndir ethnig Cymysg, mae'r gyfran wedi culhau'n flynyddol ers 2019/20 ac roedd y rheiny 5.7 pwynt canran yn uwch na'r gyfran gyffredinol o 73.9% yn 2023/24. Ar gyfer staff o gefndir Asiaidd, roedd y bwlch yn 4.1 pwynt canran yn 2023/24, yn debyg i'r rhan fwyaf o flynyddoedd ers 2016/17, er bod y bwlch wedi culhau i lai na 3 phwynt canran yn 2021/22 a 2022/23.

## Staff Anacademaidd

**Siart 14: Canran y staff anacademaidd yn narparwyr AU Cymru o bob cefndir ethnig yn y grŵp graddfeydd uwch, 2016/17 i 2023/24**




Disgrifiad: Mae'r gwahaniaethau yng nghanran y staff anacademaidd o bob cefndir ethnig yn y grŵp graddfeydd uwch wedi gostwng o 2016/17 i 2023/24. Yn 2016/17 roedd gwahaniaeth o 23.1 pwynt canran rhwng y canrannau uchaf ac isaf, o gymharu â gwahaniaeth o 8.2 pwynt canran yn 2023/24.

Data yn Nhabl 1.10 ar y llyfr gwaith atodol

Ar gyfer staff anacademaidd, mae cyfran y staff yn y grŵp graddfeydd uwch wedi cynyddu'n gyffredinol o 2016/17 i 2023/24 ac mae hyn wedi bod yn wir am staff ym mhob grŵp cefndir ethnig hefyd. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau yng nghyfradd y cynnydd wedi effeithio ar y bylchau rhwng cefndiroedd ethnig. Yn 2023/24 roedd ystod y cyfrannau o staff anacademaidd a gyflogir yn y grŵp graddfeydd uwch yn gulach nag unrhyw flwyddyn ers 2016/17, gyda gwahaniaeth o 8.2 pwynt canran rhwng y gyfran isaf (53.8% o staff o gefndir ethnig Du) a'r gyfran uchaf (62.0% o staff o gefndir ethnig Gwyn). Yn y rhan fwyaf o flynyddoedd eraill, bu'r gwahaniaeth hwn yn 20 pwynt canran neu fwy.

Staff anacademaidd o gefndir ethnig Du sydd leiaf tebygol o gael eu cyflogi yn y grŵp graddfeydd uwch ym mhob blwyddyn, gyda chyfran sydd fel arfer tua 15 pwynt canran yn is na chyfran yr holl staff. Fodd bynnag, yn 2023/24 lleihawyd y bwlch i 7.2 pwynt canran.


Mae cyfran y staff anacademaidd â chefndir ethnig Cymysg sy'n cael eu cyflogi yn y grŵp graddfeydd uwch wedi cynyddu'n sylweddol o 31.9% yn 2016/17 i 57.0% yn 2023/24. Mae hyn yn golygu bod cyfran y grŵp hwn 4.0 pwynt canran yn is na'r gyfran gyffredinol yn 2023/24 o gymharu ag 12.3% yn 2016/17.

Gwelwyd cynnydd arafach yng nghyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig Asiaidd sy'n cael eu cyflogi yn y grŵp graddfeydd uwch. Yn 2016/17 staff o gefndir ethnig Asiaidd oedd fwyaf tebygol o gael eu cyflogi ar y graddfeydd uwch sef 52.4%, 8.2 pwynt canran yn uwch na'r gyfran gyffredinol. Yn 2023/24 roedd y gyfran hon yn 56.1%, 4.8 pwynt canran yn is na'r gyfran ar gyfer yr holl staff anacademaidd.

Gan mai ond dau grŵp graddfa a geir ar gyfer staff anacademaidd, mae'r patrymau ar gyfer y rhai a gyflogir yn y grŵp graddfeydd is yn groes i'r hyn a ddisgrifir uchod, gyda chulhau tebyg yn y gwahaniaethau rhwng grwpiau cefndir ethnig yn 2023/24.

## Llywodraethwyr

**Siart 15: Canran y llywodraethwyr ym mhrifysgolion Cymru o gefndir ethnig lleiafrifol, 2017/18 i 2023/24**




Disgrifiad: Mae canran y staff o gefndir ethnig lleiafrifol wedi cynyddu o 3.0% yn 2017/18 i 13.6% yn 2023/24.

Data yn Nhabl 1.11b y llyfr gwaith atodol

Mae nifer y llywodraethwyr mewn prifysgolion yng Nghymru o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn fach, sef 25, o gyfanswm o 190 yn 2023/24. Fodd bynnag, mae'r niferoedd a'r gyfran wedi cynyddu o 2017/18 i 2023/24.

Yn 2023/24, roedd 13.6% o lywodraethwyr o gefndir ethnig lleiafrifol o'i gymharu â 5.1% yn 2018/19. Yn 2017/18, roedd 3.0% o lywodraethwyr o gefndir ethnig lleiafrifol, ond roedd lefel y llywodraethwyr lle'r oedd y cefndir yn anhysbys yn amlwg yn uwch nag mewn blynyddoedd eraill.

# Gwybodaeth am Ansawdd a Methodoleg

Gweler y ddogfen am Ansawdd a Methodoleg sydd ynghlwm am wybodaeth fanwl.

## Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harferion ystadegol eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). Mae'r OSR yn gosod y safonau ar gyfer dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer Ystadegau y dylai holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol gadw atynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau, i gynyddu eu dibynadwyedd, eu hansawdd a'u gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Natganiad Cydymffurfiaeth Medr yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.
Mae'r safonau disgwyliedig o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus wedi'u dangos a'u gwella yn y ffyrdd canlynol.

## Dibynadwyedd

O'r cychwyn cyntaf, mae'r mesurau wedi cael eu datblygu gan ystadegwyr proffesiynol yn unol â Datganiad Cydymffurfiaeth Medr a'r polisi mynediad at ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau. Caiff dyddiadau rhyddhau eu cyhoeddi ymlaen llaw, a chedwir at brotocolau'n gysylltiedig â chyfrinachedd data.

Yn achlysurol, gellir gwneud diwygiadau yn sgil gwallau i'n prosesau ystadegol neu pan fo cyflenwyr data yn hysbysu Medr eu bod wedi cyflwyno gwybodaeth anghywir. Yn yr achosion hyn, ystyrir a yw'r newid yn ddigon sylweddol fel bod angen cyhoeddi datganiad ystadegol diwygiedig. Os na thybir bod y newidiadau'n sylweddol, bydd y ffigurau'n cael eu cywiro os ydynt yn ymddangos mewn datganiadau yn y dyfodol.

## Ansawdd

Daw'r data yn yr adroddiad hwn o ffynonellau data sefydledig.

Er nad yw data UCAS yn Ystadegau Swyddogol, mae UCAS wedi mabwysiadu'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau yn wirfoddol, gan ddangos ei ymrwymiad i gynhyrchu data dibynadwy o ansawdd uchel.

Mae HESA yn cyhoeddi ei ddata myfyrwyr fel Ystadegau Swyddogol Achrededig a data staff fel Ystadegau Swyddogol, gan gynnwys gwybodaeth am gefndir ethnig. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r un ffynhonnell data sydd wedi bod drwy broses sicrhau ansawdd drylwyr iawn ac yn rhoi dadansoddiad manylach o'r ffigurau ar gyfer myfyrwyr a staff mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru.

## Gwerth

Cyhoeddwyd y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn gyntaf gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i fodloni cam gweithredu yn nogfen Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Drwy gyhoeddi'r fersiwn ddiweddaraf hon o'r mesurau rydym yn darparu gwybodaeth gyfredol a all gyfrannu at fonitro cynnydd y cynllun hwn.

Mae'r mesurau hefyd yn cyfrannu at fonitro nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a hefyd at ddyletswyddau Medr yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (2022) a'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

## Ystadegau cysylltiedig

Mae'r datganiad cyntaf o 'Fesurau monitro cydraddoldeb hiliol Addysg Uwch' a gyhoeddwyd gan CCAUC ar gael ar wefan Medr. Roedd yn cynnwys adroddiad ysgrifenedig a dogfen ar wahân ac ynddi dablau a siartiau data. Cytunwyd ar y mesurau a gafodd eu cynnwys yn dilyn ymgynghoriad gan CCAUC ac mae'r mesurau cytunedig wedi'u cyhoeddi yn Atodiad C o'r cylchlythyr W23/06HE hwn.

Ceir rhagor o ddata o'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y datganiad hwn ar dudalen we Monitro Diwedd Blwyddyn UCAS a gwefan Data Agored HESA.

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr erthygl ystadegol Ystadegau dysgu ôl-16 yn ôl grŵp ethnig dysgwyr, a ddaeth ag ystadegau tebyg ynghyd ar gyfer dysgwyr yn y chweched dosbarth, mewn addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion. Nod yr erthygl oedd darparu ystadegau sylfaenol i gefnogi un o'r nodau yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i fonitro'n systematig gyfranogiad, deilliannau a chynnydd dysgwyr ôl-16 o wahanol gefndiroedd ethnig.

Roedd yr erthygl yn cynnwys ymrwymiad i ymgorffori'r dadansoddiad hwn yn yr adroddiadau ystadegol rheolaidd sy'n ymdrin â'r rhannau hyn o'r sector addysg drydyddol yn y dyfodol. Medr sydd bellach yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r adroddiadau hyn ac mae'n darparu ystod o ystadegau manwl.

Mae'r datganiad ystadegol Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol yn darparu ystadegau ar ddysgwyr, rhaglenni a gweithgareddau a gyflawnir mewn colegau, gyda darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac yn narpariaeth dysgu yn y gymuned yr awdurdodau lleol. Ceir dadansoddiad yn ôl cefndir ethnig dysgwyr ar dudalennau 15 i 16 yr adroddiad diweddaraf, gydag ystadegau manylach ar y tablau cysylltiedig (gweler 'dogfennau eilaidd') ac ar StatsCymru.

Mae ystadegau dros dro mwy diweddar ar rai sy'n dechrau prentisiaethau yn ôl cefndir ethnig dysgwyr ar gael ar ein dangosfwrdd rhyngweithiol.

Mae Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: cyflawniad yn rhoi ystadegau ar gyflawniad rhaglenni dysgu a chyrsiau unigol yn y chweched dosbarth mewn ysgolion, ac mewn addysg bellach. Ceir dadansoddiad yn ôl cefndir ethnig ar dudalennau 19 i 21 y prif adroddiad ac yn y tablau cysylltiedig canlynol:

- Tablau 1.8a, 1.8b, 1.9a ac 1.9b – deilliannau rhaglenni addysg gyffredinol yn ôl grwpiau ethnig cyfanredol a manwl, a rhywedd/rhyw
- Tabl 1.13 – deilliannau rhaglenni addysg gyffredinol yn ôl grwpiau ethnig cyfanredol a chymhwysedd i gael Prydau Ysgol am Ddim
- Tablau 2.8 a 2.9 – deilliannau rhaglenni galwedigaethol yn ôl grwpiau ethnig cyfanredol a manwl, a statws Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill
- Tablau 3.8 a 3.9 – Deilliannau Bagloriaeth Cymru yn ôl grwpiau ethnig cyfanredol a manwl
- Tablau 4.4 a 5.4 – mesurau cwrs yn ôl maes pwnc sector a grŵp ethnig cyfanredol.

Mae Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau yn ôl grwpiau ethnig cyfanredol a manwl ar gael ar dudalen 9 y prif adroddiad ac yn y tablau cysylltiedig canlynol:

- Tabl 1.3a - Canlyniadau prentisiaethau lefel sylfaen yn ôl grwpiau ethnig cyfanredol a manwl
- Tabl 1.3b - Canlyniadau prentisiaethau yn ôl grwpiau ethnig cyfanredol a manwl
- Tabl 2.2 - Canlyniadau gweithgarwch dysgu oedolion yn ôl grwpiau ethnig cyfanredol a manwl
- Tabl 2.3 - Gweithgareddau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn ôl grwpiau ethnig cyfanredol a manwl

Mae Medr yn gobeithio ailddechrau cyhoeddi'r mesur cyrchfannau dysgwyr, rhan o'r mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16. Bydd hyn hefyd yn cynnwys dadansoddiad yn ôl cefndir ethnig dysgwyr.

Mae ystadegau ar Ddilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol yn ôl cefndir ethnig dysgwyr hefyd ar gael ar dudalennau 10 i 11 y prif adroddiad a thablau cysylltiedig 4 i 7.

## Gwybodaeth Gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir anfon adborth, cwestiynau, a cheisiadau am ddata pellach drwy e-bost i YstadegauAU@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**